Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

## Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin
## Heol Caslllwchwr
## Gorseinon
## SA4 6AU

## Dyddiad yr arolygiad: Mai 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 26/07/2017**

## Cyd-destun

Lleolir yr ysgol yn nhref Gorseinon ac mae'n cael ei chynnal gan awdurdod lleol Sir Abertawe. Mae 582 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 115 o ddisgyblion oed meithrin. Mae'r disgyblion wedi eu rhannu rhwng 20 dosbarth gan gynnwys 3 dosbarth oed cymysg. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol.

Ychydig o ddisgyblion ddaw o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Mae tua 7% yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol (19%). Mae'r ysgol wedi adnabod bod 13% o ddisgyblion yn rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae hyn yn llai na'r canran cenedlaethol (25%). Ychydig iawn o ddisgyblion a ddaw o gefndir ethnig lleiafrifol neu gymysg.

Mae'r pennaeth yn ei swydd ers Medi 2016 a chafodd yr ysgol ei harolygiad diwethaf ym mis Ionawr 2010.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin yn 2016-2017 yw £2,703. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Abertawe yw £5,232 a'r lleiafswm yw £2,703. Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin yn safle 79 o'r 79 ysgol gynradd yn Abertawe o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu
- rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio'u medrau meddwl a'u medrau dysgu annibynnol yn llwyddiannus
- rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu medrau llafar effeithiol er mwyn cyfrannu'n ddeallus i drafodaethau dosbarth ac wrth gyfathrebu â'u cyfoedion ac oedolion
- rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu medrau ysgrifennu'n effeithiol ar gyfer ysgrifennu i wahanol bwrpasau ar draws y cwricwlwm
- medrau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn datblygu'n llwyddiannus
- ymddygiad bron pob disgybl o fewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol yn dda
- gwaith y cynghorau a phwyllgorau disgyblion yn effeithiol ac yn dylanwadu'n gryf ar fywyd a gwaith yr ysgol
- athrawon yn defnyddio themâu diddorol a dychmygus i ennyn ymglymiad a brwdfrydedd disgyblion yn effeithiol
- y ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg a Chymreictod yn gryf
- athrawon a chymorthyddion yn cydweithio'n bwrpasol i gynllunio gweithgareddau dysgu ysgogol a chyffrous

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer datblygu'r ysgol, sy'n seiliedig ar gynnig addysg o safon uchel i'w disgyblion mewn amgylchedd cefnogol, hapus a Chymreig
- yr holl staff yn cydweithio'n agos fel tîm, gyda'r nod o godi safonau disgyblion a sicrhau gwelliant parhaus i'r ysgol
- strwythur staffio yn glir gyda phob un yn deall ei rôl ac yn gwybod i bwy y maent yn atebol
- llywodraethwyr yn cefnogi'r pennaeth, y staff a'r disgyblion yn dda
- gan yr ysgol weithdrefnau clir, trefnus ac effeithiol i fonitro ac arfarnu ei gwaith
- gweithdrefnau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella wedi cael effaith gadarnhaol ar agweddau penodol o'r cynllunio, y ddarpariaeth a deilliannau disgyblion mewn cyfnod byr
- gan yr ysgol bartneriaethau strategol llwyddiannus sy'n cyfrannu at wella safonau a lles y disgyblion
- ffocws y pennaeth ar hybu diwylliant agored a chydweithredol yn llwyddo i sicrhau ymrwymiad a chefnogaeth rhieni

## Argymhellion

A1 Sicrhau cyfleoedd cyson a systematig i ddatblygu medrau rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm

A2 Cryfhau defnydd athrawon o ddata crynodol er mwyn cynllunio’n fwriadus ar gyfer unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion

### Beth sy’n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Ar fynediad i'r ysgol, mae medrau sylfaenol mwyafrif y disgyblion yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, gan ddefnyddio'u medrau meddwl a'u medrau dysgu annibynnol yn llwyddiannus.

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu medrau llafar effeithiol er mwyn cyfrannu'n ddeallus i drafodaethau dosbarth ac wrth gyfathrebu â'u cyfoedion ac oedolion. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau llafar yn effeithiol ac yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa'n llwyddiannus mewn sefyllfaoedd amrywiol. Maent yn gwrando'n astud ac yn sgwrsio a thrafod â'u cyfoedion ac oedolion yn fedrus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn siarad yn hyderus ac yn defnyddio iaith raenus yn effeithiol wrth drafod gwahanol destunau. Erbyn diwedd Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf yn siarad mewn iaith safonol gan ddefnyddio ystod o eirfa goeth i fynegi eu barn yn glir ac yn aeddfed.

Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n dda. Mae'r disgyblion ieuengaf yn adnabod llythrennau a seiniau ac yn dechrau adeiladu geiriau'n effeithiol. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn datblygu'n ddarllenwyr hyderus gan ddarllen yn gywir a rhugl. Maent yn trafod eu hoff storïau yn frwdfrydig ac yn disgrifio nodweddion llyfrau'n llwyddiannus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau darllen yn effeithiol. Maent yn darllen yn ddeallus a chyda rhugldder gynyddol, gan drafod a mynegi barn am y cynnwys yn fedrus. Mae llawer yn defnyddio uwch fedrau darllen yn effeithiol wrth ymchwilio i nodweddion parciau cenedlaethol Cymru.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu ystod gynyddol o frawddegau syml yn annibynnol, gan sillafu'r mwyafrif o eiriau cyfarwydd yn gywir a defnyddio atalnodi pwrpasol. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da ac yn ysgrifennu ystod o destunau ar draws y cwricwlwm ac ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd, er enghraifft wrth ysgrifennu am hanes y Cymry'n ymfudo i Batagonia. Maent yn atalnodi'n gywir ac mae'r disgyblion mwyaf abl yn amrywio dechrau brawddegau yn effeithiol ac yn defnyddio ansoddeiriau amrywiol i gyfoethogi'r iaith yn llwyddiannus.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn adeiladu ar eu medrau ysgrifennu yn effeithiol. Maent yn ysgrifennu i wahanol bwrpasau ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ysgrifennu am brif ddigwyddiadau a chymeriadau enwog fel rhan o'u gwaith ar oes Fictoria a'r Ail Ryfel Byd. Erbyn diwedd Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n glir ac yn ddiddorol yn y ddwy iaith gan baragraffu ac atalnodi'n gywir. Mae llawer yn defnyddio cystrawennau amrywiol yn eu gwaith. Mae disgyblion mwy abl yn defnyddio ystod eang o eirfa yn llwyddiannus i gyfoethogi'u gwaith, gan gynnwys ansoddeiriau a chymariaethau priodol. Fodd bynnag, nid yw safon llawysgrifen na chyflwyniad y gwaith bob tro'n gyson dda ar draws yr ysgol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau rhifedd. Yn y Cyfnod Sylfaen, maent yn defnyddio'u medrau'n llwyddiannus mewn ystod o wahanol gyd-destunau. Maent yn cyfri, mesur a thrin data yn llwyddiannus gan ddefnyddio'r medrau hyn mewn meysydd amrywiol. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd maent yn mesur amlinelliad o'u cyrff gan ddefnyddio unedau safonol ac ansafonol. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn talgrynnu i'r 10, 100 a 1000 agosaf ac yn defnyddio nodiant degol yn lled gywir, er enghraifft wrth gofnodi arian.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth gadarn o strategaethau rhif. Maent yn defnyddio eu medrau datrys problemau rhif yn hyderus, er enghraifft wrth gymharu'r pellter mae nwyddau yn teithio i'w cartrefi o wahanol wledydd. Er hyn, cyfyng yw'r cyfleoedd iddynt gymhwyso eu medrau rhifedd mewn cyd-destunau eraill ar draws y cwricwlwm yn ddigon cyson.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion yn datblygu'n dda ar draws yr ysgol. Yn fuan iawn ar ôl cychwyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y dosbarth meithrin yn datblygu rheolaeth o lygoden cyfrifiadur a'r bysellfwrdd yn fedrus. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn datblygu ystod o fedrau'n llwyddiannus, gan gynnwys defnyddio prosesydd geiriau a meddalwedd i greu pamffledi a phosteri i gyflwyno gwybodaeth yn effeithiol. Maent yn cyfleu gwybodaeth yn llwyddiannus ar ffurf graff, er enghraifft i drefnu data o wahanol fathau o dai. Mae llawer o'r disgyblion yn creu dilyniant o gyfarwyddiadau ar gyfer rheoli tegan rhaglenadwy yn hyderus.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio'u medrau TGCh yn effeithiol iawn i gefnogi'u gwaith mewn pynciau eraill ar draws y cwricwlwm. Mae'r rhan fwyaf yn medru defnyddio taenlenni a fformiwlâu syml i drefnu data'n effeithiol, er enghraifft ar gyfer cofnodi prisiau gwahanol nwyddau yn ystod wythnos Masnach Deg. Maent yn medru defnyddio ystod o raglenni a chyfryngau yn effeithiol er mwyn cyflwyno gwybodaeth. Enghraifft dda yw'r defnydd o'r sgrin werdd ar gyfer cyflwyno cyflwyniad amlgyfrwng am gymeriad hanesyddol. Ar draws yr ysgol, mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth eang a chadarn o sut i gadw'n ddiogel ar y rhyngrwyd.

Mae disgyblion yn datblygu eu medrau meddwl yn gymwys. Erbyn diwedd Blwyddyn 6, mae llawer o strategaethau buddiol gan ddisgyblion i ymdrin â phroblemau yn eu gwaith. Mae disgyblion yn siarad yn hyderus am y strategaethau y maent yn eu defnyddio'n rheolaidd, er enghraifft i'w cefnogi i oresgyn heriau wrth wneud eu gwaith cartref.

Mae'r safonau a arsylwyd yn ystod yr arolygiad yn sylweddol uwch nag y mae'r data perfformiad ar ddiwedd y cyfnodau allweddol yn ei awgrymu. Mae'n cadarnhau cywirdeb asesu athrawon ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol eleni, sydd eto i'w dilysu, ond mae'n dangos tuedd ar i fyny ym mron pob dangosydd.

Yn gyffredinol, mae perfformiad yr ysgol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ar y deilliannau disgwyliedig ac uwch mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol wedi bod yn yr 50% is a'r 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg dros y pedair blynedd ddiwethaf. Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad ar y lefelau disgwyliedig ac uwch mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi gosod yr ysgol yn gyffredinol yn yr 50% is a'r 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg dros yr un cyfnod.

Mae rhan fwyaf y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau personol. Yn gyffredinol, mae perfformiad y merched yn uwch na'r bechgyn ar gyfer y deilliannau disgwyliedig ac uwch mewn llythrennedd ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ac ar gyfer y lefel uwch mewn Saeneg a Chymraeg ar ddiwedd cyfnod allweddol 2. Mae nifer y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn isel iawn, felly nid yw cymariaethau o'u perfformiad yn erbyn perfformiad disgyblion eraill yn ddibynadwy.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Maent yn hyderus y bydd aelodau'r 'Criw Cyfeillgar' neu staff yn delio'n brydlon ag unrhyw bryderon neu achosion sy'n codi. Maent yn hapus yn yr ysgol ac mae'r disgyblion hŷn yn gallu trafod yn synhwyrol sut mae strategaethau adfyfyrio yn dylanwadu'r gadarnhaol ar eu hiechyd meddwl a'u lles. Mae'r rhan fwyaf yn deall pwysigrwydd bwyta'n iach, a'r hyn sydd angen ei wneud i gadw'n heini.

Mae bron pob disgybl yn dangos parch a gofal tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr gan ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at eu gwaith ac mae eu gallu i weithio'n annibynnol yn datblygu'n gadarn ar draws yr ysgol. Maent yn cymryd cyfrifoldeb cynyddol am wella eu dysgu eu hunain.

Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion wedi bod dros 95% dros y tair blynedd ddiwethaf ac mae'r canran sy'n absennol yn gyson bellach wedi ei ddileu'n llwyr. Er hyn, mae'r ysgol wedi bod yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae bron pob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

Mae gwaith y cynghorau a'r pwyllgorau disgyblion eraill yn effeithiol. Maent yn dylanwadu'n dda ar fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r disgyblion yn frwdfrydig ac yn gwerthfawrogi bod arweinwyr yn ystyried eu barn o ddifri. Maent yn ymfalchïo yn eu cyfraniad i wella'r ysgol, er enghraifft trwy harddu'r buarth ac ehangu'r cyflenwad o adnoddau amser chwarae. Mae'r cyngor ysgol yn dewis cefnogi llawer o elusennau, sydd yn codi eu hymwybyddiaeth am faterion lleol ac ehangach yn llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu'n aelodau cyflawn o'u cymuned trwy gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgaredd ac maent yn ymfalchïo yn eu hardal a'u Cymreictod.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn cynnig ystod o brofiadau dysgu diddorol sy'n ymateb yn briodol i ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ac egwyddorion y Cyfnod Sylfaen. Mae'r athrawon yn defnyddio themâu diddorol a dychmygus i ennyn ymglymiad a brwdfrydedd disgyblion yn effeithiol. Gan fod digon o hyblygrwydd yn y themâu, mae'n bosib eu haddasu i ymateb i ddiddordebau ac anghenion disgyblion yn fedrus. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn gryf, gydag athrawon a chymorthyddion yn cyd-gynllunio a chydweithio'n effeithiol i ddarparu profiadau dysgu cydlynus mewn dosbarthiadau ac yn yr awyr agored ar draws y meysydd

dysgu. Mae llawer o weithgareddau allgyrsiol i ddisgyblion o bob oed, gan gynnwys clwb garddio, sesiynau coginio a gwersi Zumba. Mae'r cyfleoedd hyn yn gwella medrau personol, cymdeithasol a chorfforol disgyblion yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn bodloni gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn briodol, ac yn defnyddio cynlluniau gwaith penodol i hyrwyddo dilyniant a pharhad yn y ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd, rhifedd a TGCh. Mae hyn yn golygu bod y cwricwlwm a chynlluniau'r athrawon, gan amlaf, yn ymateb yn effeithiol i lais y dysgwyr. Er bod cynlluniau gwaith yn cynnwys camau cynyddol i ddatblygu medrau rhifedd disgyblion, nid yw'r cynllunio tymor byr bob amser yn sicrhau digon o brofiadau iddynt ymarfer eu medrau rhifedd yn ddigon systematig ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn gryf. Mae llawer o'r staff yn modelu'r iaith yn gywir, ac maent yn canolbwyntio'n dda ar ddatblygu geirfa a chystrawennau iaith y disgyblion mewn sefyllfaoedd gwahanol. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio'r iaith Gymraeg yn naturiol wrth weithio a chwarae o gwmpas yr ysgol. Ceir cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddysgu am eu hardal yn ogystal â hanes, daearyddiaeth a diwylliant Cymru drwy gwricwlwm cyfoethog. Enghreifftiau cryf o hyn yw thema Blwyddyn 6 'Hen Wlad fy Nhadau', a gwaith Blwyddyn 4 ar gymeriadau yn hanes Cymru, fel Owain Glyndŵr, Hedd Wyn a Harri Morgan.

Mae profiadau ar gyfer hyrwyddo datblygiad cynaliadwy yn dda. Mae'r ysgol yn cynnig profiadau gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu sut i fod yn ecogyfeillgar, er enghraifft drwy brosiect ailgylchu y pwyllgor eco a gwaith yr ysgol i godi ymwybyddiaeth a chefnogi Masnach Deg. Mae'r cwricwlwm yn hyrwyddo gwybodaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang yn llwyddiannus trwy gysylltiadau ag ysgolion eraill ym Mhatagonia a Lesotho.

### Addysgu: Da

Mae perthynas waith gryf yn bodoli rhwng yr athrawon, y cymorthyddion a'r disgyblion ym mhob dosbarth, sy'n sicrhau amgylchedd dysgu cadarnhaol lle mae disgyblion yn hyderus i roi cynnig ar ddysgu pethau newydd. Mae disgwyliadau'r rhan fwyaf o staff ynglŷn ag ymddygiad a safon gwaith yn uchel, ac mae hyn yn helpu disgyblion i ddeall eu rolau nhw fel rhan o'u cymuned ddysgu. Mae gan athrawon wybodaeth bynciol berthnasol ac maent yn defnyddio ystod o ddulliau a gweithgareddau i ysbrydoli rhan fwyaf y disgyblion yn dda. Mae rhediad a chyflymdra y rhan fwyaf o wersi'n briodol ac mae athrawon yn cynnal diddordeb y disgyblion yn effeithiol. Mae rhan fwyaf yr athrawon yn holi cwestiynau agored i ddisgyblion, sy'n eu herio'n llwyddiannus ac yn eu hannog i fyfyrio. Ar y cyfan, mae cymorthyddion yn cyfrannu'n effeithiol at ansawdd dysgu'r disgyblion.

Mae athrawon a chymorthyddion yn cydweithio'n bwrpasol i gynllunio gweithgareddau dysgu ysgogol a chyffrous. Mae'r gweithgareddau hyn yn ennyn diddordeb y disgyblion yn dda ac yn eu cefnogi i ddatblygu eu medrau mewn gwahanol gyd-destunau. Er enghraifft, mae'r bocsys herio ym Mlwyddyn 2 yn annog y disgyblion i ddewis her, penderfynu sut a ble i weithio, darllen y cyfarwyddiadau, defnyddio'r adnoddau sydd yn y bocs, a datrys y broblem yn annibynnol fel unigolyn, pâr neu o fewn grŵp bach.

Mae rhan fwyaf yr athrawon yn rhoi adborth priodol i ddisgyblion.  Maent yn canmol yr agweddau da ac yn cynnig awgrymiadau priodol ynglŷn â sut i wella'u gwaith. Mae llawer o athrawon yn sicrhau bod gan ddisgyblion gyfleoedd buddiol i ymateb i'w awgrymiadau er mwyn gwella eu gwaith, yn arbennig ar frig yr ysgol.  Fodd bynnag, anghyson yw'r arfer hon.  Mae gan ddisgyblion ar draws yr ysgol dargedau personol ar gyfer gwella ac mae'r mwyafrif yn deall pwrpas y targedau'n dda.

Mae'r ysgol yn manteisio ar weithdrefn asesu benodol er mwyn olrhain cynnydd disgyblion ar draws y cwricwlwm yn effeithiol.  Mae athrawon hefyd yn defnyddio'r wybodaeth yn ofalus er mwyn rhoi ffocws i'w cynllunio tymor byr.  Er enghraifft, maent yn edrych am fylchau ym medrau'r disgyblion ac yn cynllunio gweithgareddau sy'n eu galluogi i ymarfer ac atgyfnerthu medrau penodol.  Fodd bynnag, nid yw athrawon yn dadansoddi data crynodol nac yn myfyrio arno'n ddigon manwl i gynllunio'n ddigon trylwyr ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion ac unigolion.

Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn cynnwys gwybodaeth fanwl a diddorol am gynnydd disgyblion yn ogystal â sylwadau personol pwysig.  Maent hefyd yn gosod targedau perthnasol i'r disgyblion yn y pynciau craidd.

### Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol a chymdeithasol y disgyblion yn llwyddiannus trwy gyfrwng themâu pwrpasol a chyfleoedd rheolaidd i gydaddoli.  Mae'r ddarpariaeth eang sy'n bodoli i hyrwyddo addysg bersonol a chymdeithasol y disgyblion yn golygu eu bod yn meithrin dealltwriaeth gadarn o werthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch tuag at eraill.  Amlygir hyn yn y pwyslais y mae'r ysgol yn ei roi ar hawliau'r plentyn.  Nodwedd arbennig o waith yr ysgol yw'r gymuned ofalgar sydd yn cael effaith gadarnhaol ar les y disgyblion. Mae'r ysgol wedi datblygu trefniadau effeithiol i ddelio ag ymddygiad annerbyniol a bwlian.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod trefniadau effeithiol yn bodoli i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.  Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd rheolaidd i wneud ymarfer corff, yn ogystal â chael eu hannog i fod yn gorfforol weithgar ar y buarth.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer defnyddio ystod o wasanaethau arbenigol yn effeithiol ac yn dylanwadu'n gadarnhaol ar safonau lles disgyblion penodol.  Mae'r ysgol hefyd yn cynllunio gweithgareddau buddiol gydag asiantaethau allanol, fel yr heddlu a'r frigâd dân, i godi ymwybyddiaeth y disgyblion am beryglon camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, a phwysigrwydd diogelwch tân.  Mae'r ysgol yn gweithredu amrywiaeth o strategaethau yn llwyddiannus sy'n codi ymwybyddiaeth disgyblion o bwysigrwydd mynychu'r ysgol yn gyson.  Un cryfder nodedig yw'r defnydd effeithiol a wneir o swyddog lles yr ysgol i gydlynu cefnogaeth gynhwysfawr ar gyfer unigolion penodol a'u teuluoedd ac i ddileu cyfran yr absenoldebau cyson.

Mae'r ddarpariaeth gynhwysfawr sy'n bodoli ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gryfder.  Mae'r staff yn nodi anghenion dysgu disgyblion yn gynnar ac yn sicrhau cymorth buddiol iddynt.  Mae'r staff cymorth yn darparu amrywiaeth o raglenni ymyrraeth effeithiol.  O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da tuag at gyflawni eu targedau.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol, hapus a gofalgar, lle mae holl aelodau'r staff yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn eu trin yn deg a chyda pharch. Mae'r ysgol yn sicrhau bod bron pob disgybl yn derbyn mynediad cyfartal i'r cwricwlwm a'r holl weithgareddau. Mae polisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr yn bodoli i ddelio'n effeithiol ag unrhyw ragfarn neu achos o fwlio, pe bai'n codi.

Mae'r sefyllfa o safbwynt yr adeilad a'r ychydig dir o'i chwmpas yn heriol, gan fod y nifer sy'n mynychu wedi cynyddu'n sylweddol dros gyfnod byr. Er hyn, mae'r pennaeth a'r staff yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r sefyllfa trwy sicrhau bod trefniadau dyddiol yr ysgol yn sicrhau'r cyfleoedd gorau i'r disgyblion. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r ardaloedd allanol ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion ddysgu yn yr awyr agored. Mae'r ysgol yn arddangos gwaith disgyblion yn yr ystafelloedd dosbarth a'r mannau cyhoeddus yn gelfydd, ac yn rhoi bri ar eu cyflawniadau. Mae'r rhain yn ychwanegu'n dda at yr ethos cartrefol a chroesawgar sy'n bodoli. Mae'r adeiladau a thir yr ysgol yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac mae'r safle'n ddiogel ar gyfer y disgyblion.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer datblygu'r ysgol, sy'n seiliedig ar barch, cyfathrebu clir â rhieni, staff a llywodraethwyr, ac ar gynnig addysg o safon uchel i'w disgyblion mewn amgylchedd cefnogol, hapus a Chymreig. Ers ei benodi yn lled ddiweddar, mae'r pennaeth, gyda chymorth ei ddirprwy ac aelodau eraill yr uwch dîm rheoli, wedi rhannu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus gyda gweddill y staff, y llywodraethwyr a'r rhieni. O ganlyniad, mae'r holl staff bellach yn cydweithio'n agos fel tîm, gyda'r nod o godi safonau disgyblion a sicrhau gwelliant parhaus i'r ysgol. Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel ohono ef ei hun ac mae'n hyrwyddo'r egwyddor hon yn llwyddiannus ymhlith y staff a'r disgyblion.

Mae'r strwythur staffio yn glir gyda phob un yn deall ei rôl ac yn gwybod i bwy y mae'n atebol. Mae hyn yn hyrwyddo'r egwyddor o arweinyddiaeth ddosranedig yn llwyddiannus.

Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad yn addas ac mae'r amcanion gwella yn cysylltu'n briodol ag anghenion datblygu'r staff a'r ysgol.

Cynhelir cyfarfodydd staff yn rheolaidd ac maent yn canolbwyntio'n benodol ar faterion addas, sy'n cynnwys codi deilliannau'r disgyblion ac ymateb i'r blaenoriaethau a nodir yn y cynllun datblygu.

Mae'r ysgol yn ymateb yn llwyddiannus i nifer o flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, er enghraifft lleihau effaith amddifadedd a datblygu medrau llythrennedd y disgyblion. Maent yn dechrau paratoi i gyflwyno'r fframwaith cymhwysedd digidol.

Mae'r llywodraethwyr yn cefnogi'r pennaeth, y staff a'r disgyblion yn dda. Maent yn ymweld â'r ysgol yn gyson ac yn trafod datblygiadau gydag aelodau staff a disgyblion yn rheolaidd, gan ddylanwadu ar faterion pwysig ar adegau. Mae enghraifft dda o lywodraethwyr yn dylanwadu ar newidiadau yn y ddarpariaeth yn cynnwys newid themâu Blwyddyn 6 i gynyddu'r pwyslais ar faterion Cymreig. Trwy gyflwyniadau trylwyr y pennaeth newydd ynglŷn a deilliannau disgyblion ac agweddau eraill o waith yr ysgol, mae ganddynt bellach ddealltwriaeth gadarn o'i chryfderau a'r meysydd sydd angen eu datblygu. Er bod y llywodraethwyr wedi bod yn rhy araf i ddwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn y gorffennol, mae'r wybodaeth drylwyr sydd bellach ganddynt yn eu galluogi i wneud hyn yn fwy effeithiol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol weithdrefnau clir, trefnus ac effeithiol i fonitro ac arfarnu ei gwaith. Mae'r gweithdrefnau hyn yn cynnwys cywain tystiolaeth addas, drwy siarad â disgyblion, craffu ar eu gwaith, arsylwi ar sesiynau dysgu ac addysgu, a chasglu barn staff, rhieni a llywodraethwyr. Nodir y canfyddiadau yn glir a thrafodir y deilliannau gan staff ar bob lefel mewn cyfarfodydd rheolaidd, cyn llunio adroddiad sy'n crynhoi'r prif ddeilliannau.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn ddogfen gynhwysfawr, sy'n rhoi darlun cywir o waith yr ysgol ac yn nodi'n glir ei chryfderau a'r meysydd sydd angen eu datblygu. Mae'n amlygu effaith unrhyw weithgareddau ar ddeilliannau a lles disgyblion. Mae'r ddogfen, sy'n cael ei diweddaru'n rheolaidd, wedi bod yn gymorth effeithiol i'r ysgol ddathlu ei chryfderau ac i fynd i'r afael â'r nifer helaeth o feysydd yr oedd angen eu gwella ar fyrder.

Mae'r cynllun datblygu ysgol yn ddogfen drefnus a phwrpasol sydd â'i chynnwys wedi ei seilio'n uniongyrchol ar ddeilliannau'r gweithdrefnau hunanarfarnu. Nodir ynddi gyd-destun yr ysgol, targedau gwella priodol, costau a meini prawf llwyddiant mesuradwy ar gyfer pob gweithgaredd, ynghyd â phwy sy'n gyfrifol am weithredu a monitro cynnydd. Mae aelodau'r uwch dîm rheoli yn monitro'r cynnydd yn rheolaidd ac yn adrodd ar hyn i'r llywodraethwyr yn dymhorol.

Mewn cyfnod byr, mae'r gweithdrefnau hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar agweddau penodol o'r cynllunio, y ddarpariaeth a deilliannau disgyblion.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol bartneriaethau strategol llwyddiannus sy'n cyfrannu at wella safonau a lles y disgyblion. Mae systemau effeithiol o gyfathrebu yn hyrwyddo perthynas gref rhwng yr ysgol a rhieni. Mae rhieni'n cyfrannu arian sylweddol at brynu adnoddau ac offer er budd y disgyblion ac yn rhoi o'u hamser yn hael i weithio i wella cyflwr allanol yr ysgol. Mae ffocws y pennaeth ar hybu diwylliant agored a chydweithredol yn llwyddo i sicrhau ymrwymiad a chefnogaeth rhieni.

Mae partneriaeth lewyrchus yn bodoli gydag ysgolion cyfagos trwy gydweithio pwrpasol i rannu arbenigedd ac i baratoi adnoddau i ehangu a chyfoethogi profiadau disgyblion. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les a safon gwaith disgyblion, ac ar ddysgu proffesiynol staff. Enghraifft arbennig o gydweithio llwyddiannus yw'r cynllun wythnosol er mwyn croesawu disgyblion Blwyddyn 6 yr ysgol cyfrwng Saesneg gyfagos i rannu gwersi Cymraeg. Mae hyn yn ymestyn profiadau cymdeithasol yr holl ddisgyblion ac yn hybu eu medrau trawsieithu yn llwyddiannus.

Mae partneriaeth gadarn iawn gyda busnesau lleol yn bodoli sy'n gwella dealltwriaeth y disgyblion, er enghraifft am daith bwyd o wahanol fannau o'r byd. Mae'r ysgol yn elwa o dderbyn cyfraniadau ac adnoddau o fusnesau lleol i gynnal gerddi'r ysgol. Mae hyn yn hyrwyddo balchder disgyblion yn eu hamgylchedd.

Mae cysylltiadau effeithiol gyda'r cylchoedd meithrin a sefydliadau cyn-ysgol eraill yn cyfrannu'n bwrpasol at sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym yn y Cyfnod Sylfaen. Mae gan yr ysgol bartneriaethau llwyddiannus gyda'r ysgol uwchradd leol ac mae trefniadau pontio effeithiol, ac ymweliadau, yn sicrhau trosglwyddo esmwyth. Enghraifft dda o hyn yw'r gwersi Ffrangeg a roddir i ddisgyblion Blwyddyn 6 gydag athrawes yr ysgol uwchradd.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n bwrpasol gydag ysgolion y clwstwr a'r ysgol uwchradd fel rhan o drefniadau'r awdurdod lleol i safoni a chymedroli gwaith disgyblion yn gywir. Mae'r prosesau hyn yn cynorthwyo'r athrawon i ddeall yn well y safonau disgwyliedig ar ddiwedd y cyfnodau allweddol ac i gryfhau prosesau asesu mewnol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn cynllunio a monitro cyllideb yr ysgol yn effeithiol ac mae'r holl wariant yn cysylltu'n dda ag amcanion, targedau a chynlluniau'r ysgol. Mae'r adnoddau dysgu yn cael eu rheoli'n ofalus i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer anghenion bron pob un disgybl. Mae defnydd effeithiol o'r ardal tu allan, ac yn enwedig yr ardal warchodfa, sydd yn hybu profiadau dysgu ac yn ysgogi chwilfrydedd disgyblion yn llwyddiannus.

Mae gan yr ysgol lefel briodol o athrawon cymwys a chynorthwywyr sy'n cydweithio'n dda i gyflwyno'r cwricwlwm a chefnogi'r disgyblion. Mae trefniadau pwrpasol ar gyfer darparu amser cynllunio, paratoi ac asesu i athrawon.

Mae'r pennaeth a staff yn rhan o nifer o rwydweithiau dysgu sy'n cynnig ystod eang o gyfleoedd i ysgolion gydweithio ac i staff ddatblygu eu medrau a'u datblygiad proffesiynol. Er enghraifft, mae athrawon yn cydweithio gyda staff dwy ysgol leol i gynllunio gweithgareddau i gyfoethogi profiadau dysgu, sy'n cael effaith gadarnhaol ar wella medrau iaith y disgyblion.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau rheoli perfformiad effeithiol sy'n cefnogi anghenion dysgu proffesiynol parhaus pob aelod o staff. Mae pob hyfforddiant wedi'i gysylltu'n briodol â blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae defnydd effeithiol o'r grant amddifadedd i dargedu disgyblion anghenus ac mae'n cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb a lles grŵp penodol o ddisgyblion.

Mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian o ystyried deilliannau disgyblion, ansawdd y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth gadarn.

# Atodiad 1:  Sylwadau ar ddata perfformiad

**6702212 - Y.G.G. PONTYBRENIN**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 543 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 7.2 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 73 | 56 | 77 | 59 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 76.7 | 83.9 | 88.3 | 88.1 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 | 3 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 73 | 56 | 77 | 59 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 80.8 | 85.7 | 88.3 | 91.5 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 20.5 | 10.7 | 14.3 | 20.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 4 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 73 | 56 | 77 | 59 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 84.9 | 87.5 | 93.5 | 89.8 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 23.3 | 16.1 | 16.9 | 25.4 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 | 4 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 73 | 56 | 77 | 59 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 93.2 | 98.2 | 93.5 | 96.6 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 27.4 | 26.8 | 31.2 | 40.7 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 4 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6702212 - Y.G.G. PONTYBRENIN**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 543 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 7.2 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 35 | 48 | 49 | 45 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 91.4 | 89.6 | 93.9 | 93.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | 3 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 35 | 48 | 49 | 45 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 91.4 | 93.8 | 93.9 | 97.8 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 60.0 | 35.4 | 36.7 | 53.3 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 4 | 2 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 35 | 48 | 49 | 45 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 91.4 | 85.4 | 89.8 | 91.1 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 40.0 | 20.8 | 28.6 | 35.6 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 3 | 3 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 35 | 48 | 49 | 45 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 91.4 | 93.8 | 95.9 | 93.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 42.9 | 29.2 | 32.7 | 42.2 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 | 4 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 35 | 48 | 49 | 45 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 97.1 | 95.8 | 95.9 | 95.6 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 48.6 | 22.9 | 38.8 | 42.2 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 4 | 3 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 175 | 171<br>98% | 4<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 175 | 166<br>95% | 9<br>5% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 175 | 169<br>97% | 6<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 175 | 161<br>92% | 14<br>8% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 175 | 152<br>87% | 23<br>13% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 175 | 163<br>93% | 12<br>7% | Rwy’n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 175 | 173<br>99% | 2<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 175 | 173<br>99% | 2<br>1% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 175 | 159<br>91% | 16<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 90% | 10% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 175 | 168<br>96% | 7<br>4% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 175 | 135<br>77% | 40<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 174 | 162<br>93% | 12<br>7% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 240 | 111 | 117 | 6 | 4 | 2 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 46% | 49% | 2% | 2% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 240 | 152 | 80 | 4 | 2 | 2 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 63% | 33% | 2% | 1% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 241 | 170 | 68 | 1 | 2 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 71% | 28% | 0% | 1% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 240 | 114 | 101 | 15 | 7 | 3 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 48% | 42% | 6% | 3% | | |
| | | 61% | 35% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 240 | 66 | 144 | 9 | 3 | 18 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 28% | 60% | 4% | 1% | | |
| | | 47% | 48% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 240 | 101 | 125 | 6 | 5 | 3 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 42% | 52% | 2% | 2% | | |
| | | 61% | 37% | 2% | 1% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 239 | 129 | 100 | 4 | 0 | 6 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 54% | 42% | 2% | 0% | | |
| | | 64% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 236 | 72 | 109 | 15 | 8 | 32 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 31% | 46% | 6% | 3% | | |
| | | 48% | 43% | 7% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 241 | 109 | 101 | 9 | 8 | 14 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 45% | 42% | 4% | 3% | | |
| | | 59% | 35% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 241 | 122 | 96 | 5 | 2 | 16 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 51% | 40% | 2% | 1% | | |
| | | 59% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 240 | 122 | 111 | 1 | 2 | 4 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 51% | 46% | 0% | 1% | | |
| | | 66% | 32% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 235 | 71 | 87 | 17 | 9 | 51 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 30% | 37% | 7% | 4% | | |
| | | 55% | 39% | 5% | 2% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 239 | 97 | 111 | 26 | 2 | 3 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 41% | 46% | 11% | 1% | | |
| | | 48% | 41% | 9% | 2% | | |

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 241 | 139<br>58% | 94<br>39% | 7<br>3% | 0<br>0% | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 240 | 74<br>31% | 98<br>41% | 16<br>7% | 10<br>4% | 42 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 48% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 241 | 105<br>44% | 106<br>44% | 9<br>4% | 5<br>2% | 16 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 57% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 234 | 64<br>27% | 70<br>30% | 13<br>6% | 4<br>2% | 83 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 241 | 94<br>39% | 126<br>52% | 15<br>6% | 0<br>0% | 6 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 241 | 129<br>54% | 102<br>42% | 3<br>1% | 4<br>2% | 3 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 34% | 4% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Kevin Davies | Arolygydd Cofnodol |
| Huw Watkins | Arolygydd Tîm |
| Buddug Mai Bates | Arolygydd Tîm |
| Sarah Morgan | Arolygydd Tîm |
| Jeffrey Wyn Davies | Arolygydd Lleyg |
| Emyr Wyn Davies Jones | Arolygydd Cymheiriaid |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy’r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â’r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i’r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae’r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â’r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i’r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni’r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o’r 25% uchaf i’r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae’n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.